Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Eich canllaw i'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Taflen Ffeithiau Hawdd ei Ddeall 2: Llais a Rheolaeth

Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddarllen of '**Navigating Social Services Factsheet 2: Llais a rheolaeth**.'

Mawrth 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 17**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Ffôn: 03442 640 670

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247

Cynnwys

Tudalen

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.....4

Llais a rheolaeth.....6

Eiriolaeth.....8

Geiriau anodd.....17

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn sicrhau bod pobl hŷn:

- yn gallu rhannu beth maen nhw'n feddwl
- cael dewis a rheolaeth
- peidio â theimlo'n unig
- cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau maen nhw eu hangen
- dim **gwahaniaethu** yn eu herbyn.

Mae **gwahaniaethu** yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Mae'r **Comisiynydd** a'i thîm yn gweithio i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @talkolderpeople

Llais a rheolaeth

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol:

- Darganfod beth rydych chi'n feddwl, eich dymuniadau a'ch teimladau a gwrando arnyn nhw.

- Hybu a pharchu eich urddas – rhaid iddyn nhw eich gwerthfawrogi chi fel person a'ch trin chi gyda pharch.

- Meddwl am eich diwylliant a'ch credoau. Er enghraifft, eich iaith.

- Gwybod mai chi ydy'r person gorau i ddweud beth sydd orau i chi.

- Hyrwyddo eich annibyniaeth.

- Gwneud yn siŵr eich bod yn gallu cymryd rhan yn y penderfyniadau am eich gofal a'ch cymorth. Yn enwedig os ydych chi'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu.



Rydych chi'n gallu darllen mwy am beth mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud yn ôl y gyfraith yn y **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**:

- Adran 6 o'r Ddeddf
- a Rhan 2 o'r Cod Ymarfer.

Mae fersiwn hawdd ei darllen o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yma:

www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-fersiwn-hawdd-ei-ddarllen.pdf

Eiriolaeth

Rhaid i'ch awdurdod lleol ddarganfod beth rydych chi'n feddwl, eich dymuniadau a'ch teimladau.

Rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr eich bod yn gallu cymryd rhan yn y penderfyniadau am eich gofal a'ch cefnogaeth. Neu gymorth i ofalwyr.

Yn enwedig os ydych chi'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu.

Rhaid iddyn nhw ddarparu cefnogaeth i chi wneud hyn os ydych ei angen.

Rhaid i'ch awdurdod lleol wneud yn siŵr eich bod yn gallu dweud wrthyn nhw os ydych chi eisiau i rywun eistedd gyda chi wrth wneud penderfyniadau am eich gofal a'ch cymorth.

Efallai y byddwch chi'n dewis cael aelod o'ch teulu neu ffrind i eistedd gyda chi. Fe fyddan nhw'n eich helpu chi i ddweud beth rydych chi'n feddwl, eich dymuniadau a'ch teimladau. Neu maen nhw'n gallu siarad ar eich rhan.

Pan mae rhywun yn siarad ar eich rhan, mae hynny'n cael ei alw yn **eiriolaeth**. **Eiriolwr** ydy'r person sy'n codi llais ar eich rhan.

Os nad oes gennych chi neb i siarad drosoch chi, efallai eich bod yn gallu cael **Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.**

Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol:

- Yn eich cefnogi i wneud yn siŵr bod eich barn yn cael ei chlywed a'i wrando.

- Maen nhw'n gwbl annibynnol. Mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n gweithio i'r cyngor, a dydyn nhw ddim yn cael eu rheoli gan reolau'r cyngor.

- Maen nhw'n wahanol i bobl eraill sy'n codi llais drosoch chi. Er enghraifft, gweithiwr cymdeithasol. Mae gan weithwyr cymdeithasol ddyletswydd i wneud pethau mewn ffordd benodol.

- Eu gwaith nhw ydy dweud beth rydych chi'n feddwl, eich dymuniadau a'ch teimladau. Fe fyddan nhw'n sefyll dros beth rydych chi'n feddwl beth bynnag ydy effeithiau hynny.

Rhaid i'ch awdurdod lleol roi **Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol** i chi, os ydych chi'n cael anhawster:

- deall gwybodaeth

- cofio gwybodaeth

- defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau

- cyfathrebu.

Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol feddwl os ydych chi angen eiriolwr:

- I'ch helpu chi i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth.

- Yn ystod **asesiad** o'ch anghenion gofal a chymorth. Neu anghenion cymorth i ofalwyr.

> **Asesiad** ydy'r broses rydych chi'n mynd drwyddo gyda'ch awdurdod lleol i weld os ydych chi angen gofal a chymorth. Pa ofal a chymorth sydd ei angen arnoch. A sut rydych chi'n cael hynny.

- Wrth benderfynu sut i ddiwallu'ch anghenion gofal a chymorth.

- Wrth ddarparu **taliad uniongyrchol** i chi.

> Mae **taliad uniongyrchol** yn arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.

- Wrth wneud neu edrych ar eich cynllun gofal a chymorth. Neu gynllun cymorth i ofalwyr.

- Pan fyddwch chi'n dweud lle mae'n well gennych chi fyw. I amddiffyn eich tŷ os ydych chi yn derbyn gofal oddi cartref.

- Yn ystod yr **asesiad ariannol.**

> **Asesiad** ariannol ydy archwiliad i weld:
>
> - Faint o arian sydd gennych chi i fyw arno bob wythnos.
> - Faint sy'n rhaid i chi dalu am bethau fel rhent a threth cyngor.
> - Faint sydd gennych chi mewn cynilion.

- Pan maen nhw'n penderfynu os ydych chi yn gallu talu am eich gofal a'ch cymorth.

- Wrth benderfynu am d**aliad gohiriedig**. Mae **taliad gohiriedig** yn meddwl opsiwn i oedi cyn talu tan ddyddiad yn nes ymlaen.

- Wrth dalu am **wasanaethau ataliol**. Dyma wasanaethau sy'n cynnig cymorth cynnar i atal problemau rhag mynd yn ddrwg. Fel cymorth gyda rheoli arian neu wneud newidiadau i'ch cartref er mwyn i chi allu aros mor annibynnol â phosib.

- Wrth gael arian yn ôl gan rywun.

- Pan mae'r cyngor yn edrych ar faint rydych chi yn gorfod talu am wasanaethau.

- Drwy'r holl **broses ddiogelu.** Efallai y byddwch yn mynd drwy **broses ddiogelu** os ydy eich awdurdod lleol yn poeni eich bod mewn perygl o niwed.

Mae **diogelu** yn golygu eich cadw'n ddiogel a diogelu eich hawl i fyw mewn diogelwch.

- Pan fyddwch yn gwneud cwyn am wasanaethau cymdeithasol.

Mae eich awdurdod lleol yn gallu rhoi gwybodaeth, cyngor, a chefnogaeth i chi gael gwasanaethau **eiriolaeth** yn eich ardal.

Mae mwy o wybodaeth am **eiriolaeth** yn y Ddeddf **Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 201 yn:**

- Adran 181 o'r Ddeddf
- a Chod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth).

Mae fersiwn hawdd ei ddeall o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yma:

www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-fersiwn-hawdd-ei-ddarllen.pdf

Geiriau anodd

Adolygiad

Adolygiad ydy pan fyddwn ni yn edrych ar gynllun neu sut mae rhywbeth yn gweithio i wneud yn siŵr ein bod ni yn gweithio yn y ffordd orau.

Asesiad

Asesiad ydy'r broses rydych chi'n mynd drwyddo gyda'ch awdurdod lleol i weld os ydych chi angen gofal a chymorth. Pa ofal a chymorth sydd ei angen arnoch. A sut rydych yn cael hynny.

Asesiad ariannol

Mae asesiad ariannol yn edrych ar:

- Faint o arian syydd gennych chi i fyw arno bob wythnos.
- Faint sy'n rhaid i chi dalu am bethau fel rhent a threth cyngor.
- Faint sydd gennych chi mewn cynilion.

Diogelu

Mae diogelu yn meddwl cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth.

Eiriolwr ac Eiriolaeth

Eiriolaeth ydy pan mae rhywun yn siarad ar eich rhan. Eiriolwr ydy'r person sy'n codi llais ar eich rhan.

Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Taliad Uniongyrchol

Mae taliad uniongyrchol yn arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.